

Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Fanyleb Gwasanaeth hon yn disgrifio'r gwasanaeth sydd i'w ddarparu, a hefyd mae'n nodi gofynion y gwasanaeth hwnnw. Bydd yn cynorthwyo'r rhai sy'n tendro i baratoi eu cynigion tendr.

Bydd y Fanyleb Gwasanaeth yn rhan o delerau ac amodau'r contract a gyflwynir ar ôl cwblhau'r broses dendro.

Mae Rhanbarth XXXX yn comisiynu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc y mae ganddynt hawl statudol i gael gwasanaethau o'r fath.

Eiriolaeth yw un o'r cerrig sylfaen allweddol o ran cyflawni ein hymrwymiad i hawliau plant. Rydym eisiau gwneud yn siŵr y bydd modd i blant a phobl ifanc gael help pan fônt ei angen, a hynny gan bobl a fydd yn gwrando arnynt ac yn cynrychioli eu barn.

Ar hyn o bryd, mae xxx contract ar waith ledled y rhanbarth, Awdurdodau Lleol U W ac Y.

Drwy gydol y broses dendro, bydd yr awdurdodau lleol o fewn y rhanbarth yn chwilio am ansawdd, gan wneud y gorau yr un pryd o'r arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd trwy gyfuno darpariaethau'r gwasanaeth.

Cynnwys:

- 1 [Diffinio Eiriolaeth](#)
- 2 [Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol](#)
- 3 [Y Gwasanaeth](#)
- 4 [Cymhwystra](#)
- 5 [Darparu'r Gwasanaeth](#)
- 6 [Ymweld ag Unedau Preswyl](#)
- 7 [Hyrwyddo/Codi Ymwybyddiaeth](#)
- 8 [Cynnig Gweithredol](#)
- 9 [Atgyfeirio](#)
- 10 [Staffio](#)
- 11 [Sicrhau Ansawdd](#)
- 12 [Cyfranogi](#)
- 13 [Adolygu, monitro a gwerthuso](#)

- 1 [Atodiad – Crynodeb o Ddulliau o Ymdrin ag Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd](#)


1. Diffinio eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn ymwneud â: siarad ar ran plant a phobl ifanc, gan rymuso plant a phobl ifanc i wneud yn siŵr bod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu clywed bob amser, mynegi barn, dymuniadau a theimladau plant a phobl ifanc wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a'u helpu i fynd drwy'r system.

Mae eiriolaeth effeithiol yn hanfodol os ydym am ddiogelu plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn rhag arferion gwael a chael eu cam-drin. Bwriad eiriolaeth yw siarad yn uchel dros blant a phobl ifanc, ac roedd yn un o faterion canolog adroddiad Waterhouse.

Eiriolaeth Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru 2015

Mae eiriolaeth yn gweithio ar sawl lefel – Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, Eiriolaeth Ffurfiol ac Eiriolaeth Anffurfiol/Eiriolaeth Cyfoedion – a dylid ystyried yr elfennau hyn fel pe baent yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio rhwydwaith eirioli i gynorthwyo plant neu bobl ifanc. Mae gan eiriolaeth ar bob lefel ran i'w chwarae wrth gynorthwyo plant neu bobl ifanc, ond mae cyfyngiadau a therfynau'n perthyn i eiriolaeth hefyd. Bydd cydnabod y cyfyngiadau a'r therfynau hyn yn cryfhau gallu'r gwahanol lefelau i weithio gyda'i gilydd, yn enwedig y berthynas rhwng Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ac Eiriolaeth Ffurfiol. Mae gan rai plant a phobl ifanc hawl i gael Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol yn rhinwedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



2. Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol

Mae'r cysyniad o annibyniaeth wrth galon a chraidd eiriolaeth.

Bwriad gwasanaeth eirioli annibynnol yw cynnig dulliau diogelu i blant a phobl ifanc. Mae hi'n hollbwysig i'r eiriolwyr a fydd yn cynnig y gwasanaeth hwn fod yn rhydd i gynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc, heb unrhyw wrthdaro buddiannau, ac mae hi'n hanfodol iddynt herio darparwyr y gwasanaeth mewn modd priodol ar ran y plentyn neu'r person ifanc. Gall testun unrhyw herio o'r fath fod yn eang iawn, a gall gynnwys:

- Penderfyniadau a wneir ynglŷn â gofal plentyn neu berson ifanc
- Cynnal hawliau cyfreithiol plentyn neu berson ifanc
- Ansawdd y gofal a roddir

Rôl yr eiriolwr yw cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i wneud penderfyniad cytbwys, a dylai barn a dymuniadau'r person ifanc fod yn gwbl ganolog yn hyn o beth. Bydd eiriolwr yn helpu plentyn neu berson ifanc i ddeall ei hawliau a'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael; ond yn y pen draw, bydd unrhyw benderfyniad a wneir yn eiddo i'r plentyn neu'r person ifanc.

Ceir mwy o wybodaeth am rôl eiriolwyr mewn perthynas â'r Contract hwn, ynghyd â'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â bod yn eiriolwr, yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth), yn arbennig yn Atodiad 1.

Gweithwyr Proffesiynol Eraill – Eiriolaeth Ffurfiol

Mae gan weithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc rôl i'w chwarae wrth gynorthwyo pobl ifanc i gael llais, wrth siarad o blaid plant a phobl ifanc ac wrth wneud yn siŵr fod eu hawliau'n cael eu parchu a bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu parchu a'u hystyried. Yn aml, bydd y cymorth a roddir gan eiriolwyr annibynnol yn debyg i'r cymorth a roddir gan y gweithwyr proffesiynol hyn yn ystod eu gwaith, ond mae yna rai gwahaniaethau pwysig o ran dull.

Mae gan y gweithwyr proffesiynol hyn ddyletswydd gofal gyfreithiol tuag at blant neu bobl ifanc, a byddant yn defnyddio'u barn broffesiynol i asesu cyflwr plant neu bobl ifanc ac ystyried sut gallai hynny effeithio ar yr hyn a wnânt. Gan ddefnyddio'r farn hon, mae'n ofynnol iddynt weithredu er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc. Fodd bynnag, rôl yr eiriolwr yw cefnogi barn neu ddymuniadau'r plentyn neu'r person ifanc, hyd yn oed pan fo'r rhain yn wahanol neu'n groes i'r hyn y cred yr eiriolwr sydd er budd pennaf y plentyn neu'r person ifanc.

Ymhellach, mae hi'n ofynnol i'r gweithwyr proffesiynol hyn weithredu'n unol â pholisïau a gweithdrefnau eu cyflogwyr. Felly, rhaid iddynt weithio o fewn cyfyngiadau polisi a chyfyngiadau ariannol, ac efallai na fydd modd iddynt gefnogi neu gynnig yr hyn y bydd y plentyn neu'r person ifanc yn gofyn amdano. Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i eiriolwyr

allu gweithio y tu allan i'r cyfyngiadau hyn ac o fewn fframwaith eu hymarfer proffesiynol eu hunain.

Rheoli/Ategu Annibyniaeth

Mae'n bwysig iawn, felly, i'r egwyddor 'eiriolaeth annibynnol' gael ei chydabod yn glir a'i hategu gan y rhai sy'n caffael gwasanaethau, ynghyd â chan ddarparwyr ac ymarferwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill y bydd yr eiriolwyr yn gweithio â nhw. Dylid cynnwys annibyniaeth yn yr holl gamau sy'n gysylltiedig â darparu eiriolaeth annibynnol, yn cynnwys y canlynol:

- Y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Comisiynwyr a darparwr yr eiriolaeth
- Wrth bennu trefniadau adborth priodol, er mwyn i'r gwasanaeth eirioli annibynnol allu adrodd i'r comisiynwyr (yn rheolaidd a phan fo argyfwng) am y canlyniadau a gyflawnwyd o ganlyniad i ddarparu'r gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw bryderon, gan sicrhau na ddatgelir enw'r plentyn neu'r person ifanc (pan fo hynny'n angenrheidiol).
- Trefniadau llywodraethu'r gwasanaeth eirioli annibynnol, sy'n cadarnhau annibyniaeth y modd y rheolir y gwasanaeth.

Dylai darparwyr eiriolaeth annibynnol sicrhau bod eu statws annibynnol yn cael ei gadarnhau trwy gyfrwng:

- Safonau uchel mewn ymarfer eirioli a fesurir yn erbyn y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol,
- Partneriaethau gweithio cryf gyda defnyddwyr y gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol a chomisiynwyr,
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd a pholisïau cyfrinachedd cytunedig.

2. Canlyniadau

Rhaid i'r Gwasanaeth gael ei gyflwyno'n unol ag Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Felly, dyma'r Canlyniadau gofynnol ar gyfer y Gwasanaeth:-

- 1 Mae gwasanaethau eirioli o ansawdd da ar gael yn rhwydd ac mae'n hawdd i blant a phobl ifanc gael gafael arnyn nhw.
- 2 Mae preifatrwydd plant a phobl ifanc a'u hawl i gyfrinachedd yn cael eu parhau ac mae eu lles yn cael ei ddiogelu a'i amddiffyn.
- 3 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am eu hamrywiaeth, yn cael eu trin â pharch ac mae pob math ar wahaniaethu yn eu herbyn yn cael ei herio.
- 4 Mae plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i arwain mewn perthynas â gwasanaethau eirioli, ac mae eu hawliau, eu dymuniadau a'u teimladau'n cael eu cefnogi.
- 5 Mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dylunio, cynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau eirioli.

3. Y Gwasanaeth

Gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol a gynigir i blant a phobl ifanc ledled y rhanbarth – sef gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar unigolion, sy'n seiliedig ar faterion ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ("y Gwasanaeth").

Wrth ddarparu'r Gwasanaeth, rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth gydymffurfio â'r rheoliadau, y safonau, y ddeddfwriaeth, y cyfarwyddiadau, y cod ymarfer a'r fframwaith canlyniadau, ynghyd ag unrhyw newidiadau neu amnewidiadau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- At ddibenion paragraff 7(1) Atodlen 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'r Gwasanaeth yn golygu gwasanaeth 'eirioli', ac o ganlyniad mae'n wasanaeth rheoleiddiedig a rhaid iddo gydymffurfio â'r darpariaethau/gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
- Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Cod Ymarfer Rhan 10 (Eiriolaeth).
- Canllawiau Statudol yn ymwneud â Rhannau 2 i 15 Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

Dogfennau allweddol eraill:

- Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Diogelu Data 2018 (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)

4. Cymhwysra

Rhaid i'r Gwasanaeth fod ar gael i'r plant a'r bobl ifanc a ganlyn (sef 'plentyn/plant â hawl');

- Plant sy'n Derbyn Gofal, neu blentyn nad yw'n derbyn gofal ond sydd ag anghenion gofal a chymorth o bosibl;
- plentyn y mae Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig mewn grym ar ei gyfer;
- plentyn sydd wedi'i fabwysiadu neu blentyn a allai gael ei fabwysiadu;
- person ifanc a oedd yn arfer bod yn blentyn a dderbynai ofal, fel y'i diffinnir dan adran 176 ac adran 104 y Ddeddf;

- person ifanc sy'n cael a/neu sy'n gymwys i gael cymorth yn unol ag adran 104(2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

Yn ôl y diffiniad a geir o blentyn yn Rhan 1 (3) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae "plentyn" yn golygu person dan 18 oed. Fodd bynnag, at ddibenion y Gwasanaeth, cydnabyddir bod yn rhaid delio fesul achos â phlant ifanc iawn yn y categori oedran 0 – 5 oed. Efallai y bydd y Gwasanaeth yn briodol, gan ddibynnu ar y plentyn unigol, y mater/materion yr ymdrinnir â hwy, ac argaeledd/addasrwydd ffurfiau eraill o gymorth eirioli h.y. Eiriolaeth Ffurfiol/Eiriolaeth gan Ymarferwyr neu Eiriolaeth Anffurfiol/Eiriolaeth Teulu.

5. Darparu'r Gwasanaeth

Hygyrchedd

Bydd modd cysylltu â'r Gwasanaeth yn ddwyieithog dros y ffôn, trwy neges destun neu trwy e-bost, a hefyd bydd gwasanaeth 'peiriant ateb' dwyieithog ar gael y tu allan i oriau gwaith. Bydd y gwasanaeth 'peiriant ateb' hwn yn cynnwys neges yn dweud sut gellir cael help yn syth, a bydd yn nodi'r amserlen ar gyfer cael ymateb gan y gwasanaeth eirioli.

Bydd y Gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y Gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chanllawiau 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, gan hyrwyddo cynnig Cymraeg rhagweithiol ym mhob agwedd ar ddarparu'r gwasanaeth.

Darperir cyfleusterau Cyfieithu/Cyfieithu ar y Pryd pan fo'n well gan y plentyn gyfathrebu mewn iaith ac eithrio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd Darparwr y Gwasanaeth yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymatebol i blant ag anghenion cyfathrebu ychwanegol, gan sicrhau y bydd arbenigedd i'w gael o fewn y Gwasanaeth ar gyfer gweithio â phlant ag anabledau a/neu anghenion cyfathrebu cymhleth.

Bydd Darparwr y Gwasanaeth yn cynnig Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd i blant a phobl ifanc na allant roi cyfarwyddyd i eiriolwr, gan ddefnyddio un o'r dulliau a ddisgrifir yn Atodiad ..., neu gyfuniad o ddulliau o'r fath.

Bydd y Gwasanaeth yn ymatebol a bydd yn cael ei ddarparu mewn modd amserol.

Bydd y Gwasanaeth ar gael 52 wythnos y flwyddyn, a bydd yn hyblyg er mwyn bodloni argaeledd plant/pobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi sicrhau bod y Gwasanaeth ar gael y tu allan i oriau gwaith arferol, yn cynnwys ar benwythnosau a gyda'r nos.

Bydd y Gwasanaeth yn hygyrch i blant a phobl ifanc trwy'r holl ranbarth, yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc a leolir gan awdurdodau lleol mewn rhannau eraill o Gymru neu'r DU (lleoliadau y tu allan i'r sir).

Bydd y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn gwahanol leoliadau trwy'r rhanbarth, yn dibynnu ar amgylchiadau a dewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc, a bydd cyfrinachedd yn cael ei sicrhau drwy'r adeg. Efallai y bydd hyn yn cynnwys ymweld â chartrefi, ysgolion, manau cymunedol neu fannau cyhoeddus, a bydd darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod asesiadau risg ac asesiadau peryglon priodol yn cael eu cynnal.

Y modd y dylai'r eiriolwr weithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc

Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn modd agored gyda phlant a phobl ifanc, ac yn unswydd er eu budd. Caiff y gwasanaeth ei arwain gan farn a dymuniadau'r plant a'r bobl ifanc.

Bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar unigolion er mwyn iddo allu diwallu anghenion a dewisiadau'r plentyn neu'r person ifanc.

Dylai'r Gwasanaeth roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am eu hawliau o ganlyniad i ddeddfwriaethau, polisïau CCUHP etc.

Dylai'r Gwasanaeth roi manylion i blant a phobl ifanc am ffynonellau eraill lle gallant gael gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Bydd hyd yr ymyriad eirioli'n dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn. Gall fod yn ymyriad tymor byr, tymor canolig neu dymor hir, yn dibynnu ar ystod, natur a chymhlethdod y materion (isell, canolig neu uchel).

Dylai'r Gwasanaeth helpu plant a phobl ifanc i archwilio'u hopsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion – yn cynnwys canlyniadau posibl yr opsiynau – gan fynd ati i lunio cynllun gweithredu eiriolaeth gyda'r plentyn neu'r person ifanc, sef cynllun sy'n ystyriol o blant ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, lle esbonnir sut gellir bwrw ymlaen â'r mater / materion penodol.

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth roi diweddariadau amserol i blant a phobl ifanc mewn perthynas â rhoi'r cynllun gweithredu eiriolaeth ar waith.

Mae'r Gwasanaeth yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i baratoi ar gyfer cyflwyno'u barn yn uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – gan eu cynorthwyo gyda'u sgiliau cyfathrebu neu eu sgiliau pendantrwydd, neu eu cynorthwyo i baratoi cyflwyniadau.

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth esbonio statws annibynnol y Gwasanaeth i blant a phobl ifanc.

Cais i newid eiriolwr neu gwyno

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth esbonio i blant a phobl ifanc sut gallant wneud cais i newid eiriolwr, a rhaid iddo fod â pholisïau a gweithdrefnau cwyno clir sy'n ystyriol o blant. Dylai Ddarparwr y Gwasanaeth esbonio'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn i'r plant a'r bobl ifanc wrth ddechrau ar y gwaith, a dylai eu hatgoffa ohonynt pan fo hynny'n briodol.

Dylai'r Gwasanaeth gynorthwyo plant a phobl ifanc i gwyno ynglŷn â'r gwasanaeth eirioli a/neu'r awdurdod lleol, ynghyd â'u cynorthwyo i gysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru pan fo hynny'n briodol.

Cyfrinachedd

Rhaid i'r Gwasanaeth weithio i lefel uchel o gyfrinachedd, gan barchu preifatrwydd plant a phobl ifanc. Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth weithredu'n unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, gan gyd-fynd â gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu. Bydd polisi cyfrinachedd y Gwasanaeth yn cael ei rannu gyda'r plentyn neu'r person ifanc, a'i esbonio iddo, cyn i'r eiriolaeth gychwyn, yn cynnwys yr amodau sy'n berthnasol i atgyfeiriad Amddiffyn Plant.

Pan fo angen gwneud atgyfeiriad amddiffyn plant ar ôl i ryw wybodaeth gael ei datgelu, dylai'r Gwasanaeth esbonio'r sefyllfa i'r plentyn neu'r person ifanc, dylai roi gwybod iddo am yr angen i'w atgyfeirio, a dylai geisio'i ganiatâd pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny er mwyn cynnal y berthynas eirioli.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth sicrhau na fydd unrhyw blentyn neu berson ifanc yn dioddef gwahaniaethu o fewn eu gwasanaeth. Bydd y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd a fydd yn trin plant a phobl ifanc â chwarteisi a pharch bob amser, gan roi ystyriaeth briodol i amrywiaeth, cefndir ac anghenion unigol plant a phobl ifanc, yn enwedig o ran oedran, anabledd a chefnidiroedd diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol plant a phobl ifanc.

Ni ddylai unrhyw rwystrau atal plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig rhag cael gwasanaeth llawn. Os pennir angen arbenigol yn ymwneud â hil, rhywioldeb, anabledd neu ffactorau eraill yn ymwneud â chydraddoldeb, dylai Darparwr y Gwasanaeth geisio cyngor gan wasanaeth cymorth arbenigol, a gwneud atgyfeiriad am gymorth pellach pan fo hynny'n briodol.

Mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau yn ôl y gyfraith, ac yn ôl polisiâu cydraddoldeb ac amrywiaeth yr asiantaethau sy'n darparu'r gwasanaethau ar eu cyfer.

Amrywiol

Rhaid i'r Gwasanaeth gadw cofnodion manwl o'r gwaith a wneir, yn cynnwys y cynllun gweithredu eiriolaeth, y gweithgarwch, y materion, y canlyniadau a'r adborth – cofnodion y bydd y plant a'r bobl ifanc yn cytuno arnynt ac y gallant gael mynediad atynt.

Mae gwasanaethau eirioli'n hyrwyddo hawliau plant yn y gwaith a wnânt gydag oedolion a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

6. Ymweld ag Unedau Preswyl

Bydd y Gwasanaeth yn anfon eiriolwyr i ymweld â holl unedau preswyl/seibiant mewnol pob un o'r awdurdodau lleol.

Pan ofynnir yn benodol iddo wneud hynny, bydd y gwasanaeth yn darparu Ymweliadau Preswyl ar gyfer Darparwyr Annibynnol pan fo nifer o bobl ifanc cymwys wedi'u lleoli yn yr un uned breswyl/seibiant.

7. Hyrwyddo/Codi Ymwybyddiaeth

Bydd dealltwriaeth gyffredin o eiriolaeth ledled y rhanbarth yn cael ei hyrwyddo. Bydd gan y Gwasanaeth gynllun lledaenu gwybodaeth i sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei marchnata'n eang trwy ddefnyddio deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog, addas i'r oedran, er mwyn i blant a phobl ifanc fod yn ymwybodol o'r gwasanaeth, deall yr hyn y gall eiriolwyr ei gynnig a deall sut gellir cael mynediad at y gwasanaeth.

Bydd y Gwasanaeth yn rhoi strategaethau allgymorth ar waith ar gyfer ymgysylltu â grwpiau o blant a phobl ifanc cymwys sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd deunyddiau hyrwyddo/deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog ar gael er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth ac unrhyw rai eraill a all fod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael mynediad at y gwasanaeth. Bydd y deunyddiau ar gael mewn sawl fformat, er mwyn diwallu anghenion unigol.

Bydd o leiaf bedair sesiwn hyfforddi/codi ymwybyddiaeth yn cael eu cyflwyno bob blwyddyn ym mhob awdurdod lleol ar gyfer grwpiau, timau ac asiantaethau a all fod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael mynediad at y gwasanaeth. Bydd y sesiynau'n esbonio polisi cyfrinachedd y gwasanaeth ac yn cyflwyno'r egwyddorion sydd ynghlwm wrth eiriolaeth (ffurfiol ac anffurfiol), yn ogystal â sut/pryd i bennu'r angen i gyfeirio/atgyfeirio unigolion at y Gwasanaeth Eirioli Proffesiynol Annibynnol.

Bydd y Gwasanaeth yn ymgysylltu â gwasanaethau cymorth eraill sy'n gweithio gyda grwpiau o blant a phobl ifanc agored i niwed, fel 'plant ar goll' a ffoaduriaid, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n ymwybodol o'r meini prawf cymhwysra a'r prosesau atgyfeirio ar gyfer cael mynediad at gymorth eirioli.

8. Cynnig Gweithredol ac eiriolaeth seiliedig ar faterion

At ddibenion y Fanyleb Gwasanaeth hon, mae'r cynnig gweithredol yn golygu'r cyfarfod wyneb yn wyneb rhwng y Darparwr a'r Plentyn/Person Ifanc ar ôl i'r wybodaeth gychwynnol gael ei chyflwyno ac ar ôl i'r Plentyn/Person Ifanc roi ei ganiatâd ar gyfer cynnal y cyfarfod. Yn unol â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, mae'n ofniad statudol y bydd Plentyn/Person Ifanc yn gymwys i gael cynnig gweithredol os yw'r:

- Plentyn/Person Ifanc yn mynd i'r system gofal fel 'Plentyn sy'n Derbyn Gofal'

- Plentyn/Person Ifanc yn mynd i'r maes amddiffyn plant

Efallai y bydd/na fydd y Plentyn/Person Ifanc yn penderfynu ei fod yn dymuno cael Gwasanaeth gan yr Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol o ganlyniad i'r cyfarfod eirioli cynnig gweithredol. Pe bai Plentyn/Person Ifanc yn cytuno i gymryd cymorth eirioli yn dilyn cyfarfod cynnig gweithredol, bydd y gwasanaeth yn cael ei ddiffinio ymhellach fel eiriolaeth seiliedig ar faterion yn dilyn hunanatgyfeiriad a bydd 'cynnig gweithredol' yn cael ei nodi fel ffynhonnell yr atgyfeiriad.

Y Cynnig Gweithredol – Gwybodaeth

Gwybodaeth gychwynnol sy'n cael ei rhannu gan y Gweithiwr Cymdeithasol:-

Pan fo Plentyn/Person Ifanc yn gymwys i gael cynnig gweithredol, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn rhannu gwybodaeth gychwynnol am hawliau statudol y Plentyn/Person Ifanc i gael gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol a bydd caniatâd yn cael ei sicrhau i hwyluso cyfarfod cynnig gweithredol gyda'r Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gan yr Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol:-

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn cynnwys esboniad o rôl y gwasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, yr hyn y caiff ac na chaiff ei wneud, y ffordd mae'n gweithredu ar sail barn, dymuniadau a theimladau plentyn neu berson ifanc, ei fod yn annibynnol a'i fod yn gweithio'n unswydd er mwyn y plentyn/person ifanc. Ymhellach, bydd yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn egluro polisi'r gwasanaeth ar gyfrinachedd, diogelu a hawl statudol plant a phobl ifanc i gael cymorth i fynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau, yn ogystal â'u hawl i gyflwyno sylwadau neu wneud cwyn.

Caiff gwybodaeth ynglŷn â'r rhwydweithiau cymorth ehangach sydd ar gael i blant a phobl ifanc ei rhannu hefyd. Mae'r cymorth ehangach hwn yn cynnwys eiriolaeth ffurfiol/eiriolaeth gan ymarferwyr (h.y. athro, gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd proffesiynol), eiriolaeth anffurfiol (gan aelod o'r teulu neu ofalwr) ac eiriolaeth gan gyfoedion, yn ogystal â gwybodaeth a manylion cyswllt Llinell Gymorth MEIC a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Ceir mwy o fanylion am y gofynion sy'n berthnasol i'r Cynnig Gweithredol yn Atodiad D y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol.

9. Atgyfeirio

Gellir gwneud atgyfeiriadau trwy e-bost/dros y ffôn/wyneb yn wyneb ar ffurf:-

- Hunanatgyfeiriadau uniongyrchol gan blant neu bobl ifanc unigol;
- Atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol ac oedolion eraill ar ôl cael caniatâd y plentyn neu'r person ifanc h.y. Gweithwyr Cymdeithasol, staff cartrefi preswyl,

rhieni, gofawyr maeth, Swyddog Adolygu Annibynnol, Cydlynnydd Amddiffyn Plant, Swyddogion Addysg, nyrsys, meddygon, a gweithwyr proffesiynol eraill.

- Gan ofalwyr ar ran plant neu bobl ifanc ag anabledau/anawsterau cyfathrebu, sef plant a phobl ifanc na allant roi caniatâd ar sail gwybodaeth a/neu a all fod angen dull heb gyfarwyddyd o ymdrin ag eiriolaeth (Gweler Atodiad ...).

Ar ôl atgyfeirio, bydd y cyswllt cyntaf â'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei wneud o fewn un diwrnod gwaith; bydd cyswllt wyneb yn wyneb pellach yn cael ei wneud o fewn tri i bum diwrnod gwaith, a dim ond er mwyn ymateb mewn modd hyblyg i argaeledd neu hwylustod y plentyn neu'r person ifanc y dylid ymestyn y cyfnod hwn.

Ymdrinnir mewn modd cyfrinachol â phob mater, yn unol â pholisïau'r gwasanaeth ar gyfer cyfrinachedd ac amddiffyn plant.

Bydd Ddarparwr y Gwasanaeth yn dilyn prosesau perthnasol yr awdurdod lleol pan fo hynny'n briodol; er enghraifft, yn dilyn camau swyddogol mewn gweithdrefn gwyno. Bydd copïau o weithdrefnau cwyno pob awdurdod lleol yn cael eu rhoi i Ddarparwr y Gwasanaeth ar ôl i'r contract gael ei ddyfarnu.

Bydd cofnod manwl gywir o bob atgyfeiriad yn cael ei gadw; ac fel rhan o'r dasg o gyflawni a monitro'r gwasanaeth, sicrhair y bydd y gweithgarwch atgyfeirio a'r modd y cymhwysir y meini prawf cymhwysra ar gael i'r comisiynwyr.

10. Staffio

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth gynnal cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a chydymffurfio'n llwyr â disgwyliadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a'r ddeddfwriaeth a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. O ran staffio, golyga hyn fod yn rhaid i ddarparwyr y Gwasanaeth, felly, fod â'r canlynol ar waith:

- polisïau a gweithdrefnau creiddiol yn ymwneud â recriwtio staff;
- arferion llym yn ymwneud â recriwtio a fetio staff;
- strwythur rheoli a staffio sy'n ategu'r datganiad diben ac sy'n berthnasol i anghenion unigolion;
- strwythur, systemau a phrosesau rheoli'n ymwneud â chynefino staff ac yn ymwneud â'u goruchwylio, eu hyfforddi a'u datblygu'n barhaus.

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth sicrhau bod yna ddigon o staff â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau gofynnol i ddarparu'r Gwasanaeth yn unol â'r Fanyleb hon ac mewn ffordd a fydd yn diwallu anghenion plant â hawl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn gwbl weithredol bob amser. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth, ar ei draul ei hun, sicrhau bod gweithwyr eraill ar gael i lenwi bwlch pan fydd rheolwyr ac eiriolwyr yn absennol o'u gwaith am bedair wythnos neu fwy, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

Mae'n ofynnol i eiriolwyr fod wedi dilyn hyfforddiant mewn eiriolaeth broffesiynol ac mae'n ofynnol iddynt weithio tuag at y cymwysterau perthnasol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae'n ofynnol i Reolwyr Cofrestredig fod wedi dilyn hyfforddiant mewn eiriolaeth broffesiynol ac mae'n ofynnol iddynt weithio tuag y cymwysterau perthnasol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Bydd Goruchwylydd y Contract yn cael ei wahodd i bennu rhywun i gynrychioli Prynwr y Gwasanaeth er mwyn cymryd rhan yn y dasg o recriwtio a dethol staff newydd a benodir gan Ddarparwr y Gwasanaeth.

Bydd Plant a Phobl Ifanc yn gysylltiedig â'r broses o recriwtio a dethol staff newydd a benodir gan Ddarparwr y Gwasanaeth.

Bydd Darparwr y Gwasanaeth yn sicrhau bod y proffil staffio'n adlewyrchu anghenion ieithyddol y boblogaeth o ran cael mynediad at y gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd gan y staff swydd-ddisgrifiadau clir a manwl, a byddant yn deall strwythur, gwerthoedd ac ethos y sefydliad maent yn gweithio iddo, ynghyd a'u rôl yn y sefydliad, a'r terfynau a'r trywyddau atebolrwydd.

Bydd yr eiriolwyr yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd i weithio gyda phlant ag anableddau a chanddynt anghenion cyfathrebu ychwanegol, yn cynnwys dulliau cyfathrebu cynyddol, a bydd ganddynt y cymorth a'r hyfforddiant angenrheidiol i fynd i'r afael â'u rôl yn effeithiol.

Bydd gan y staff ddealltwriaeth dda o bolisi gwrthwahananiaethu'r gwasanaeth ac anghenion amrywiol y plant a'r bobl ifanc, a bydd ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at weithio gyda nhw a chyda gweithwyr proffesiynol trwy'r rhanbarth.

Bydd y staff yn cael eu rheoli, eu cefnogi, eu hyfforddi a'u goruchwyllo'n briodol er mwyn sicrhau y bydd y Gwasanaeth yn gweithredu'n ddidrafferth trwy'r rhanbarth. Cedwir cofnodion o hyfforddiant y staff, a bydd y cofnodion hyn ar gael i'r comisiynwyr ar gais.

Bydd y staff sy'n darparu'r gwasanaeth yn cael eu paru mewn modd addas â'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd yr un eiriolwr yn cael ei ddarparu ar gyfer y plentyn/person ifanc, cyn belled ag y bo modd, yn unol â dewis y plentyn/person ifanc.

Disgwylir i Ddarparwr y Gwasanaeth roi strwythur rheoli darbodus ar waith ar gyfer y contract hwn, a bydd hyn yn arwain at ddyrannu cymaint â phosibl o adnoddau'n uniongyrchol ar gyfer darparu'r gwasanaeth.

11. Sicrhau Ansawdd

Mae'n hanfodol i'r Gwasanaeth a ddarperir gan Ddarparwr y Gwasanaeth fod o'r radd flaenaf. I'r perwyl hwn, rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth wneud y canlynol:

- Llunio a chynnal Datganiad Diben yn nodi bwriad a chyfeiriad sefydliadol clir ar gyfer y Gwasanaeth, ynghyd â'r camau y bydd Darparwr y Gwasanaeth yn eu cymryd i sicrhau y darperir gwasanaeth o'r radd flaenaf.
- Sefydlu a gweithredu'r polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol i gynorthwyo'r rheolwyr a'r staff.
- Sefydlu a chynnal strwythurau rheoli doeth i oruchwylio'r Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys penodi Unigolyn cyfrifol effeithiol i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaeth a chynnig sicrwydd bod y gwasanaeth yn ddiogel, yn cael ei redeg yn briodol a'i fod yn cydymffurfio â gofynion y Contract a'r cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Defnyddio system rheoli gwybodaeth gadarn a fydd yn mynd ati mewn modd effeithiol i gofnodi a chydgasglu gwybodaeth am y Gwasanaeth, ac a fydd yn ategu penderfyniadau gweithredol a phenderfyniadau rheoli mewn modd effeithiol.
- Hyrwyddo diwylliant agored, gonest a didwyll ar bob lefel o'r sefydliad.
- Sefydlu, cynnal a gweithredu system sydd wedi'i chodeiddio'n briodol er mwyn gallu monitro'r Gwasanaeth yn fewnol ("y Trefniadau Sicrhau Ansawdd").

Y diben wrth wraidd sicrhau ansawdd yw helpu i wneud yn siŵr bod Darparwr y Gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl. Dylai'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd gynnwys gwybodaeth am y camau y bydd Darparwr y Gwasanaeth yn eu cymryd i fonitro'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

Dylai'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd gynnwys gweithgareddau arfaethedig a gweithgareddau systematig. Dylai'r holl weithgareddau adolygu ac archwilio a gynhelir dan y Trefniadau Sicrhau Ansawdd fod â nodau ac amcanion clir, a dylent esgor ar gynlluniau gweithredu pendant a threfnus. Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth gadw tystiolaeth ddogfennol o'r modd mae'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd wedi arwain at newidiadau a gwelliannau.

Rhaid i'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd ymdrin ag ystod o feysydd, yn cynnwys:-

- Sut caiff y Gwasanaeth ei gynllunio, ei ddarparu, ei fonitro a'i werthuso.
- Adolygu polisiau a gweithdrefnau sefydliadol.
- Sut caiff unrhyw gyfrifoldebau cyfreithiol, ariannol a sefydliadol eu deall a'u diwallu.

Rhaid i Ddarparwr y Gwasanaeth fynd ati'n rheolaidd i gynnwys adborth gan randdeiliaid allweddol, fel rhan o'i Drefniadau Sicrhau Ansawdd. Rhywbeth sydd o'r pwys pennaf yn hyn o beth yw'r angen i gynnwys barn plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Dylid sicrhau bod y Trefniadau Sicrhau Ansawdd, ynghyd â'r dystiolaeth o'r modd y'u rhoddir ar waith, ar gael i Oruchwylydd y Contract ar gais.

Unwaith y flwyddyn, dylai Darparwr y Gwasanaeth roi adolygiad blynyddol o'r Gwasanaeth i Oruchwylydd y Contract. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys:

- y gweithgareddau sicrhau ansawdd a roddwyd ar waith yn ystod y flwyddyn;
- sut cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses hon;

- tystiolaeth o'r modd mae'r trefniadau sicrhau ansawdd uchod wedi ysgogi'r gwasanaeth i ddatblygu a gwella.

Efallai y bydd Goruchwyllydd y Contract yn ei gwneud hi'n ofynnol i Ddarparwr y Gwasanaeth gyflwyno newidiadau rhesymol i'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd pan fo hynny'n ategu'r modd y cyflawnir y Contract.

12. Cyfranogi

Bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r arfer o gael plant a phobl ifanc i gyfranogi ac ymgysylltu, a hynny er mwyn eu galluogi i fynegi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth a chymryd rhan yn y dasg o lunio, cynllunio a darparu'r gwasanaeth, yn cynnwys recriwtio staff.

Wrth gael help gan blant a phobl ifanc i wella'r gwasanaeth, bydd Darparwr y Gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau y ceir barn gynrychiadol, gytbwys gan y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Bydd Darparwr y Gwasanaeth yn cynnal arolwg adborth blynyddol ymhlith defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal â chyflwyno sesiynau cyfranogi ac ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc yn ymwneud â datblygu a gwella'r gwasanaeth.

13. Adolygu, monitro a gwerthuso

Rhaid i'r Gwasanaeth gadw gwybodaeth fanwl gywir a chyfredol am berfformiad mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth, y defnydd a wneir o'r gwasanaeth a natur yr eiriolaeth, yn unol â'r Offeryn Adrodd Cenedlaethol. Gellir gweld templed cyfredol yr Offeryn Adrodd Cenedlaethol yn Atodiad .. Dylai Darparwr y Gwasanaeth gytuno i weithio yn ôl fersiwn ddiwygiedig yr Offeryn pan gytunir ar hyn yn genedlaethol.

Bydd yr Offeryn Adrodd Cenedlaethol yn bwydo i'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gall Goruchwyllydd y Contract (a/neu unrhyw unigolyn a awdurdodir gan y Goruchwyllydd) ymweld â swyddfa Darparwr y Gwasanaeth er mwyn arolygu ac archwilio'r cofnodion a gedwir ynglŷn â'r Gwasanaeth gan Ddarparwr y Gwasanaeth. Dylai ymweliadau o'r fath gael eu cynnal mewn modd sy'n cyd-fynd â Pholisi Cyfrinachedd y Gwasanaeth. Yn ystod unrhyw ymweliad, dylai Darparwr y Gwasanaeth roi unrhyw gyfleusterau rhesymol angenrheidiol i Oruchwyllydd y Contract.

Bob chwarter, dylai Goruchwyllydd y Contract (a/neu Swyddogion dirprwyedig) gyfarfod â chynrychiolydd penodol Prynwr y Gwasanaeth. Bydd dibenion y cyfarfod hwn yn cynnwys:

- adolygu'r modd y cyflawnir y canlyniadau a'r meini prawf allweddol o fewn y Contract;
- lledaenu arferion da a thrafod gwelliannau i'r gwasanaeth;

- trafod yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch perfformiad;
- trafod themâu a materion allweddol a grybwyllir gan y plant a'r bobl ifanc a chyflwyno'r achos dros newid y gwasanaeth (eiriolaeth systematig);
- trafod cwynion yn ymwneud â'r Gwasanaeth, ynghyd ag achosion o'i ganmol;
- unrhyw fater arall a all ddeillio o dro i dro o gyflawni'r Gwasanaeth.

Mae Goruchwylydd y Contract yn cadw'r hawl i drefnu cyfarfodydd adolygu ychwanegol yn ôl y galw i drafod y Gwasanaeth.

Dylai Darparwr y Gwasanaeth gydweithredu bob amser gyda holl brosesau rhesymol Goruchwylydd y Contract ar gyfer adolygu, monitro a gwerthuso'r Gwasanaeth. Yn ogystal â'r gweithgareddau monitro a nodwyd eisoes, rhagwelir y bydd y gwaith monitro'n cynnwys y canlynol:

- adborth gan blant a phobl ifanc;
- adolygu adroddiadau archwilio Arolygiaeth Gofal Cymru;
- adborth gan weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â chynorthwyo plant a phobl ifanc;
- adborth gan gomisiynwyr.

Pa un a gaiff ei bennu fel rhan o'r Trefniadau Sicrhau Ansawdd, fel rhan o waith monitro Goruchwylydd y Contract, neu mewn unrhyw fodd arall, ni ddylai Darparwr y Gwasanaeth oedi cyn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw ddiffyg yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar y Gwasanaeth.

Mae Darparwr y Gwasanaeth yn cydnabod bod Prynwr y Gwasanaeth yn gorff cyhoeddus ac y gellir craffu ar ei benderfyniadau. Felly, mae Darparwr y Gwasanaeth yn cytuno y bydd yn mynychu cyfarfodydd (yn cynnwys cyfarfodydd craffu gydag Aelodau'r Cyngor) i drafod y Gwasanaeth, pe bai Prynwr y Gwasanaeth yn gofyn iddo wneud hynny.

Crynodeb o Ddulliau o Ymdrin ag Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd

Weithiau, ni fydd modd i blentyn neu berson ifanc roi cyfarwyddyd i eiriolwr. Pan na all plentyn neu berson ifanc roi cyfarwyddyd o'r fath, gellir defnyddio eiriolaeth heb gyfarwyddyd i gynrychioli ei farn, ei ddymuniadau a'i deimladau.

Ar hyn o bryd, ceir pedwar dull cydnabyddedig o ymdrin ag eiriolaeth heb gyfarwyddyd, a chânt eu crynhoi isod. Cydnabyddir mai dull integredig yw'r dull mwyaf effeithiol o gyflwyno eiriolaeth heb gyfarwyddyd. Gall Darparwr y Gwasanaeth ddefnyddio un dull neu gyfuniad o ddulliau, gan ddibynnu ar ei asesiad o'r sefyllfa a'r mater dan sylw. Fodd bynnag, gan mai rôl yr eiriolwr yw sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc sy'n destun eiriolaeth heb gyfarwyddyd yn cael lle blaenllaw mewn prosesau penderfynu (fel yn achos eiriolaeth o unrhyw fath), fel arfer ni ddefnyddir y Dull Seiliedig ar Hawliau ar ei ben ei hun.

Dull Seiliedig ar Hawliau

Gyda'r dull hwn, rôl yr eiriolwr yw sicrhau bod hawliau dynol sylfaenol defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hyrwyddo, eu hamddiffyn, a phan fo angen, eu defnyddio i gymryd camau cadarnhaol ar ran defnyddwyr y gwasanaeth, a gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio gwahanol ffyrdd. Pan fo'r eiriolwr o'r farn fod yr anghyfiawnder a ddaw i ran defnyddiwr y gwasanaeth yn anghyfreithlon, dylai geisio cynrychiolaeth gyfreithiol briodol ar gyfer yr unigolyn.

Dull sy'n Canolbwyntio ar Unigolion

Wrth dreulio amser gyda defnyddiwr y gwasanaeth, ac o bosibl gyda phobl eraill mae'r cleient yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt, gall yr eiriolwr greu darlun o ffordd o fyw'r unigolyn, ei ddewisiadau a'i anghenion. Gall yr eiriolwr gynrychioli barn yr unigolyn yn annibynnol 'fel pe bai'n farn yr eiriolwr ei hun' (O'Brien 1981). Wrth wneud hyn, bydd yr eiriolwr yn tynnu sylw at safbwyntiau unigryw defnyddiwr y gwasanaeth, ac o'r herwydd bydd yn hyrwyddo dull seiliedig ar unigolion mewn perthynas â darparu'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau.

Dull Briff Gwylio

Mae wyth maes sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd yn ganolog i'r dull hwn, a defnyddir y meysydd hyn fel sail i gyfres o gwestiynau y gall yr eiriolwr eu gofyn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu i ddarparwr y gwasanaeth ar ran defnyddiwr y gwasanaeth. Mae Briff Gwylio yn cynnig fframwaith ar gyfer cwestiynu a herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu ddarparwr y gwasanaeth mewn ffordd heb fod yn wrthdrawol, gan annog darparwyr y gwasanaeth i roi'r defnyddiwr wrth galon a chraidd y broses benderfynu. Wrth ddefnyddio model Briff Gwylio, rhaid i eiriolwyr sicrhau bod nifer o faterion yn glir: *Mae model y Briff Gwylio wedi cael ei ddatblygu gan [wasanaethau eirioli ASIST yn Swydd Stafford](#) ac mae wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y gwasanaethau hynny.*

Dull Arsylwi ar Dystion

Wrth arsylwi ar y ffordd mae'r cleient yn byw ei fywyd, efallai y bydd yr eiriolwr yn gweld neu'n clywed pethau annerbyniol neu bethau a all roi llesiant yr unigolyn yn y fantol. Hefyd, efallai y bydd yr eiriolwr yn dod i ddeall beth yw dewisiadau a phleserau defnyddiwr y gwasanaeth, a gellir defnyddio'r wybodaeth hon yn ei thro i wella perthnasoedd cadarnhaol. Ni fydd yn rhaid i'r eiriolwr lunio barn na rhagdybiaethau wrth ddefnyddio'r dull hwn; yr unig beth y bydd yn rhaid iddo'i wneud yw adrodd ar yr hyn y sylwodd arno a dwyn y pethau hyn i sylw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr y gwasanaeth.